



8 Awst 2017

ATISN 11356

Pwrpas y llythyr hwn yw i ymateb yn ffurfiol i'ch ebost 19 Gorffennaf a'ch apel yn erbyn y penderfyniad i beidio ymateb yn llawn i'ch cais am wybodaeth a ddaeth i law ar 21 Mehefin. Mae Owen Evans wedi gofyn i fi ystyried eich cwyn ar ei ran o dan drefniadau Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud a ceisiadau am wybodaeth o dan ddeddfwriaeth rhyddid gwybodaeth.

Fe wnaeth y tim polisi Cymraeg ymateb i'ch cais gwreiddiol ar 19 Gorffennaf. Fe wnaeth yr ymateb hynny ymateb yn rannol i'ch cais gwreiddiol ac mi wnaeth yr ymateb hwnnw esbonio bod gwybodaeth pellach yn cael ei cadw yn ôl o dan telerau adran 35(1)(a) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 sy'n ymwneud a fformwleiddiad polisi'r Llywodraeth. Lle nad yw gwybodaeth yn cael ei rhyddhau o dan yr amgylchiadau hyn mae yna ddyletswydd ychwanegol i ystyried a ydy'r budd i'r cyhoedd o beidio a rhyddhau'r wybodaeth y gofynnwyd amdano yn gryfach na'r dadleuon o blaid rhyddhau'r wybodaeth. Fel rhan o'r adolygiad hwn, felly, rwyf wedi ystyried y penderfyniad i eithrio gwybodaeth a'r ffordd y defnyddiwyd prawf budd y cyhoedd.

Rwyf wedi ystyried a oedd yn gywir i ddadlau bod y gwybodaeth y gofynnwyd amdano yn berthnasol i'r broses o ddatblygu polisi cyhoeddus. Rwyf yn gefnogol o'r penderfyniad hwn. Mae'r gwaith o ddatblygu'r Safonau'r Iaith Gymraeg yn parhau. Roedd y cyfarfodydd yr oedd eich cais yn cyfeirio atyn nhw yn rhan pwysig o ddatblygu y polisi hwnnw. Rwyf wedi dod i'r casgliad, felly, ei fod yn resymol i ddadlau bod telerau Adran 35 y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn rhoi cyfiawnhad i gadw nol gwybodaeth yn yr achos hon.

Fel rhan o'r adolygiad rwyf hefyd wedi ystyried o safbwynt y budd i'r cyhoedd a ydy'r dadleuon dros beidio a rhyddhau'r wybodaeth y gofynnwyd amdano yn gryfach na'r dadleuon o blaid rhyddhau'r wybodaeth. Mae yna ddadleuon budd cyhoeddus pwysig o blaid sicrhau y tryloywder mwyaf posib wrth ddatblygu polisïau sy'n ymwneud a safonau'r iaith Gymraeg. Mae yna hefyd ddadleuon cyhoeddus cryf dros sicrhau bod y safonau hynny mor effeithiol a



phosib wrth gefnogi defnydd o'r laith Gymraeg ym mhob agwedd ar fywydau pobl Cymru. Y gofid a mynegwyd yn y penderfyniad gwreiddiol oedd y byddai cyhoeddi cofnodion y cyfarfodydd yn cynyddu'r posibilrwydd y byddai rhan deiliad yn amharod i gwrdd i drafod materion polisi iaith ac yn fwy gofalus wrth rhannu gwybodaeth. Roedd y tîm hefyd yn gofidio bod yna risg y byddai'r wybodaeth a rhyddhawyd yn cyfaddawdu Comisiynydd y Gymraeg pan fydd yn gosod safonau ar gyrff yn ogystal a danseilio annibyniaeth y broses o gylwyno hysbysiadau cydymffurfio i gyrff. Ar ôl ystyried y materion yma yn ofalus rwyf wedi dod i'r casgliad bod y budd cyhoeddus yn awgrymu na ddylid rhyddhau'r gwybodaeth yma. Rwyf wedi dod i'r penderfyniad bod y cyhoedd yn elwa mwyaf trwy sicrhau bod y Safonau Iaith Gymraeg mor effeithiol a phosib wrth ymestyn cyfleoedd i bobl defnyddio'r laith Gymraeg wrth gynnal busnes gyda ystod o gyrff cyhoeddus. Mae yna fudd cyhoeddus glir o ganlyniad mewn sicrhau bod yr ymgynghoriad sydd yn arwain at sefydlu'r safonau yma mor gyflawn a phosib. Ac rwy'n teimlo ei fod hi'n rhesymol i'r swyddogion dadlau y byddai cyhoeddi'r gwybodaeth hwn yn torri ar draws y broses o ymgynghori. Ar y cyfan, felly, rwyf wedi dod i'r casgliad ei fod yn briodol i dal nol nodiadau'r cyfarfod ond i rhyddhau rhestr cyflawn o'r cyfarfodydd.

Os ydych yn anfodlon a'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin a'ch cais mae gennych yr hawl i gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth. Gallwch gysylltu a'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad canlynol:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Swydd Gaer
SK9 5AF

Hefyd os ydych yn teimlo bod camweinyddu wedi digwydd wrth ymateb i'ch cais mae gynnich yr opsiwn o gwyno at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru:

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
1 Ffordd yr Hen Gae
Pencoed
Pen-y-bont
CF35 5LJ

Ebost: ask@ombudsman-wales.org.uk

Yn gywir

JOHN HOWELLS
Cyfarwyddwr Tai ac Adfywio